



4 Chwefror 2021

Annwyl gydweithiwr

## **Cwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc byddar yn nhymor y Gwanwyn 2021**

Mae hwn yn llythyr agored i chi oddi wrth dri mudiad blaenllaw sy'n cefnogi plant a phobl ifanc byddar yn y DU: y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, y Gymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) a Phartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr (NatSiP).

Defnyddir y term plentyn byddar i olygu unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd ag unrhyw lefel o golled clyw. Gyda thua 2,500 o blant byddar ledled Cymru, gyda bron i 90% o'r rheini yn mynychu ysgolion prif ffrwd<sup>i</sup>, hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth i fyfyrwyr byddar dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r sefyllfa bresennol yn parhau i gyflwyno nifer o heriau enfawr. Mae'r llythyr hwn i'ch atgoffa am sawl pwynt allweddol ar anghenion plant byddar i chi eu hystyried.

### **Addysg o bell**

Mae [rhestr wirio](#)<sup>ii</sup> y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn cynnig cyngor ymarferol ar sut allwch sicrhau bod unrhyw dysgu o bell yn addas i blant byddar. Fel y gwelwch, mae yna ystod o gamau syml a fydd yn debygol o fod o fudd i blant a phobl ifanc eraill yn eu dosbarth.

Anogwn ysgolion a cholegau i feddwl am hygyrchedd unrhyw adnoddau ar-lein y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio atynt. Mae nifer o ddarparwyr – yn cynnwys Oak National Academy a BBC Bitesize – wedi cymryd sawl cam yn y maes hwn i, er enghraifft, sicrhau bod cynnwys ag is-deitlau. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar hefyd wedi cynhyrchu [canllaw ar gynnwys hygyrch](#)<sup>iii</sup> a all hefyd fod yn ddefnyddiol.

Bydd Athrawon Plant Byddar peripatetig o wasanaeth addysg arbenigol ar gyfer plant byddar eich awdurdod lleol yn gallu cynnig cymorth a chyngor pellach.

Os ydy plant a phobl ifanc byddar yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at addysg o bell, dylai ysgolion a cholegau ystyried caniatáu iddynt ddod i'r ysgol/coleg fel dysgwr sy'n 'agored i niwed'. Gall hyn fod yn ddefnyddiol yn nhermau cael mynediad at gymorth arbenigol (er enghraifft, cynorthwydd addysgu, gweithiwr cymorth cyfathrebu neu Athro Plant Byddar) lle bo angen.

### **Cymorth peripatetig i fyfyrwyr byddar**

Mae llawer o blant byddar yn dibynnu ar gymorth arbenigol gan ystod o weithwyr proffesiynol, yn cynnwys gweithwyr cymorth cyfathrebu, cynorthwywyr addysgu, therapyddion lleferydd ac iaith ac Athrawon Plant Byddar peripatetig. Disgwyliwn i ysgolion a cholegau wneud popeth a allant i drefnu a hwyluso mynediad

at y cymorth arbenigol hwn. Mae hyn yn berthnasol pa un a ydynt yn derbyn addysg yn yr ysgol/ coleg neu o bell.

Mae arweiniad gan Lywodraeth Cymru<sup>iv</sup> wedi bod yn glir iawn yn dweud y dylai Athrawon Plant Byddar peripatetig (gwadd) gael caniatâd i fynd i mewn i ysgolion a cholegau, ar yr amod bod nifer o ragofalon yn cael eu cymryd:

*“Gall athrawon llanw, athrawon peripatetig a/neu staff dros dro eraill symud rhwng ysgolion. Dylent sicrhau eu bod yn lleihau cyswllt ac yn cadw cymaint o bellter ag sy’n bosib o aelodau staff eraill. Dylai arbenigwyr, therapyddion, clinigwyr a staff cymorth arall i ddisgyblion sydd ag AAA ddarparu ymyriadau fel arfer. Dylai ysgolion ystyried sut i reoli ymwelwyr eraill i’r safle, fel contractwyr a sicrhau bod canllawiau’r safle ar gadw pellter cymdeithasol/corfforol a hylendid yn cael eu hegluro i ymwelwyr wrth iddynt neu cyn iddynt gyrraedd. Lle bo ymweliadau yn digwydd y tu allan i oriau ysgol, dylent. Dylid cadw cofnod o bob ymwelydd.”*

Ein cyngor yw **ni** ddylai ysgolion a cholegau osod unrhyw ddulliau cyffredinol ynglŷn â hyn. Yn lle, dylai ysgolion a cholegau ystyried y risgiau unigol i blant a phobl ifanc byddar os na all cefnogaeth gael ei darparu wyneb yn wyneb.

Er gall cefnogaeth gael ei darparu i blant a phobl ifanc byddar o bell weithiau, nid hon yw’r ffordd orau bob tro. Mae’r rhesymau pam gall ymweliad wyneb yn wyneb fod yn fwy effeithiol yn cynnwys:

- mae’r plentyn neu berson ifanc yn ei chael hi’n anodd cael mynediad at sŵn neu i weld arwyddion/ patrymau gwefusau ar sgrin
- yr angen i ddarparu hyfforddiant neu i ddangos neu fodelu arfer da na ellir eu gwneud yn effeithiol o bell
- wrth ffitio neu wirio cyfarpar, fel cymhorthion radio.

Cydnabyddwn efallai y bydd adegau pan fydd yn angenrheidiol i ddarparu cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc byddar o bell yn lle. Disgwyliwn fydd ysgolion a cholegau yn gwneud popeth a allant i hwyluso hyn.

### **Masgiau a gorchuddion wyneb**

Mae dysgu wedi’i seilio ar allu cyfathrebu yn glir i fyfyrwyr ac mae cyfathrebu clir yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc byddar. Bydd defnyddio masgiau neu orchuddion wyneb yn cael effaith sylweddol iawn ar allu plant a phobl ifanc byddar i gyfathrebu, i’r fath raddau a all mynychu’r ysgol neu goleg fod yn ddibwrpas.

Fel mae Llywodraeth Cymru yn mynegi: *“dylid ystyried yn ofalus effaith gwisgo gorchudd wyneb ar ddysgwyr byddar neu ddysgwyr sydd wedi colli eu clyw i unrhyw lefel.”*

Nid ein rôl ni yw rhoi neu sylwi ar faterion iechyd cyhoeddus. Gofynnwn, os ydy masgiau neu orchuddion wyneb yn cael eu gwisgo yn eich lleoliad addysg, fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar yn gallu parhau i gael mynediad at addysg.

Gall yr addasiadau rhesymol hyn gynnwys, er enghraifft, gwisgo amddiffynwyr neu fasgiau wyneb clir, cynnydd mewn defnydd technoleg cymhorthion radio, hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fyddardod ychwanegol. Dylai ysgolion a cholegau hefyd fod yn ymwybodol o’r eithriad sydd ar waith sydd yn caniatáu i rywun dynnu ei orchudd neu fasn wyneb am gyfnod byr os bydd angen iddynt gyfathrebu â rhywun sy’n dibynnu ar ddarllen gwefusau.

Er mwyn adnabod pa addasiadau rhesymol a fydd y mwyaf effeithiol, bydd yn bwysig trafod y mater gyda'r myfyriwr, teulu ac Athro Plant Byddar.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ym [mhapur safbwynt](#)<sup>v</sup> y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar orchuddion a masgiau wyneb mewn addysg.

## Cymorth i ddal i fyny

Bydd Athrawon Plant Byddar peripatetig yn chwarae rôl allweddol mewn cynnig cyngor a chymorth fel rhan o unrhyw raglenni dal i fyny neu hyfforddiant a all fod ar gael i unrhyw blentyn neu berson ifanc byddar unigol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os ydy cymorth i dal i fyny neu hyfforddiant yn cael eu cynnig gan rywun nad ydynt wedi gweithio gyda phlentyn byddar o'r blaen.

## Arholiadau ac asesiadau

Bydd yn bwysig bod unrhyw raddau y mae pobl ifanc byddar yn eu derbyn yn adlewyrchu eu gallu a chyraeddiadau yn deg. Er bod y manylion am sut y dyfernir graddau dal i gael eu sefydlu gan Gymwysterau Cymru a CBAC, gofynnwn fod:

- trefniadau mynediad priodol ar waith ar gyfer unrhyw 'arholiadau bach' a all gael eu defnyddio a/neu fod hygyrchedd unrhyw ffug arholiadau blaenorol yn cael eu hystyried cyn penderfynu ar radd
- cyngor wedi cael ei ofyn amdano gan Athro Plant Byddar (neu arbenigwr priodol arall) ar y dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau ar gyfer graddio.

Gall methu â chymryd y camau hyn fod yn sail ar gyfer apêl ar ran unrhyw berson ifanc byddar nad ydynt yn fodlon ar eu gradd derfynol.

## Mwy o wybodaeth

Mae ein canllaw yn cynnig awgrymiadau pellach ar gamau lliniarol ar yr uchod a materion eraill a fydd yn eich galluogi chi i sicrhau bod plant a phobl ifanc byddar yn gallu parhau i gael mynediad at addysg.

- [Canllawiau ar gyfer ysgolion](#)<sup>vi</sup> (Saesneg)
- [Canllawiau ar gyfer ysgolion](#)<sup>vii</sup> (Cymraeg)
- [Canllawiau ar gyfer colegau](#)<sup>viii</sup> (Saesneg)
- [Canllawiau ar gyfer colegau](#)<sup>ix</sup> (Cymraeg)

Mae [blog coronafeirws i weithwyr proffesiynol](#)<sup>x</sup> Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar hefyd yn cynnwys mwy o wybodaeth am y coronafeirws a chefnogaeth i blant byddar ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, mewn ymateb i unrhyw newidiadau mewn canllawiau'r llywodraeth a/neu adborth gan weithwyr proffesiynol. Mae ystod o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws hefyd ar gael trwy [BATOD](#)<sup>xi</sup> a [NatSIP](#)<sup>xii</sup>.

Yn ogystal â chysylltu â gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar eich awdurdod lleol, gallwch hefyd gysylltu â [llinell gymorth](#)<sup>xiii</sup> y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar os hoffech wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth bellach.

Hoffwn ddiolch i chi am ystyried y materion hyn.

Yn gywir,

Debbie Thomas, Pennaeth Polisi a Dylanwadu (Cymru), Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru

Steph Halder, Llywydd, BATOD

Lindsey Rousseau, Hwylusydd, NatSIP

---

<sup>i</sup> Yn cynnwys plant mewn ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau. Ffynhonnell: [www.ndcs.org.uk/CRIDE](http://www.ndcs.org.uk/CRIDE) neu [www.batod.org.uk/information/cride-reports/](http://www.batod.org.uk/information/cride-reports/).

<sup>iii</sup> [www.ndcs.org.uk/blog/deaf-friendly-remote-learning-a-checklist-for-teachers/](http://www.ndcs.org.uk/blog/deaf-friendly-remote-learning-a-checklist-for-teachers/)

<sup>iii</sup> [www.ndcs.org.uk/documents-and-resources/how-to-make-your-resources-accessible-to-deaf-children-and-young-people/](http://www.ndcs.org.uk/documents-and-resources/how-to-make-your-resources-accessible-to-deaf-children-and-young-people/)

<sup>iv</sup> <https://llyw.cymru/canllawiau-newydd-i-gefnogi-dychwelyd-ir-ysgol-ym-mis-medi>

<sup>v</sup> [www.ndcs.org.uk/media/6209/face-covering-in-education-position-paper.pdf](http://www.ndcs.org.uk/media/6209/face-covering-in-education-position-paper.pdf)

<sup>vi</sup> [www.ndcs.org.uk/media/6009/education-and-coronavirus-advice-to-schools-february-2021.pdf](http://www.ndcs.org.uk/media/6009/education-and-coronavirus-advice-to-schools-february-2021.pdf)

<sup>vii</sup> [www.ndcs.org.uk/media/6020/education-and-coronavirus-advice-to-schools-february-2021-welsh.pdf](http://www.ndcs.org.uk/media/6020/education-and-coronavirus-advice-to-schools-february-2021-welsh.pdf)

<sup>viii</sup> [www.ndcs.org.uk/media/6053/education-and-coronavirus-advice-to-colleges-february-2021docx.pdf](http://www.ndcs.org.uk/media/6053/education-and-coronavirus-advice-to-colleges-february-2021docx.pdf)

<sup>ix</sup> [www.ndcs.org.uk/media/6054/education-and-coronavirus-advice-to-colleges-february-2021-welsh.pdf](http://www.ndcs.org.uk/media/6054/education-and-coronavirus-advice-to-colleges-february-2021-welsh.pdf)

<sup>x</sup> [www.ndcs.org.uk/blog/coronavirus-and-support-for-deaf-children-information-for-professionals/](http://www.ndcs.org.uk/blog/coronavirus-and-support-for-deaf-children-information-for-professionals/)

<sup>xi</sup> [www.batod.org.uk/resource/suggested-resources-from-batod-members/](http://www.batod.org.uk/resource/suggested-resources-from-batod-members/)

<sup>xii</sup> [www.natsip.org.uk/coronavirus-advice-and-resources](http://www.natsip.org.uk/coronavirus-advice-and-resources)

<sup>xiii</sup> [www.ndcs.org.uk/helpline](http://www.ndcs.org.uk/helpline)